## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

## NAFWC 2007 (Papur 3)

**Dyddiad:** 14 Tachwedd 2007
**Amser:** 8.30 – 9.30
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw'r Awdur a rhif cysylltu:** Dianne Bevan, x8991

# Cyflogau a Lwfansau Aelodau

**Diben a chrynodeb o'r materion dan sylw**
1. Rhoi gwybod i'r Comisiwn am y cynnydd a wnaethpwyd i benodi aelodau o'r panel annibynnol i adolygu cyflogau a lwfansau Aelodau a'r amserlen a bennir i'r panel gyflwyno argymhellion i'r Comisiwn

**Argymhellion**
2. Fod y Comisiwn yn nodi aelodaeth y panel a'r amserlen.

**Trafodaeth**
3. Mae'r Comisiwn wedi cytuno i dderbyn argymhellion gan banel o bobl annibynnol ar lefelau a chynnwys cyflogau a lwfansau Aelodau sy'n deillio o newid yn statws y Cynulliad yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (cylch gorchwyl drafft **yn amgaeedig)**. Cysylltwyd ag amrywiaeth o bobl oedd â gwybodaeth neu gefndir ym meysydd gwleidyddiaeth, datganoli, gweinyddiaeth seneddol, gwasanaethau cyhoeddus a busnes a gofynnwyd iddynt a fyddent yn barod i gymryd rhan. Mae'r canlynol wedi cytuno hyd yma:-

- Syr Michael Wheeler-Booth, aelod o Gomisiwn Richard a chyn Glerc i'r Seneddau
- Janet Davies, Aelod Cynulliad wedi ymddeol a chyn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio
- Yr Athro Steven Martin o Ysgol Fusnes Caerdydd, arbenigwr yn y sector cyhoeddus a oedd yn gynghorydd academaidd i Adolygiad Beecham ar Gyflawni Gwasanaethau Lleol yng Nghymru

- Mair Barnes, a benodwyd yn ddiweddar yn gynghorydd anweithredol i'r Comisiwn, ac mae ganddi hanes o fod yn arweinydd mewn nifer o gwmnïau mawrion.
- Bydd William Graham AC hefyd ar y Panel fel cynrychiolydd y Comisiwn.

Mae cynrychiolwyr posibl eraill yn cael eu hystyried hefyd a bydd y sefyllfa ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno ar lafar yn y cyfarfod. Bydd y gwaith gweinyddol a'r gwaith o gasglu tystiolaeth yn cael ei wneud gan staff Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad, a bydd Ian Summers hefyd yn cynorthwyo'r panel yn ei adolygiad.

4. Gyda chytundeb y panel, bydd y rhaglen waith arfaethedig ganlynol yn cael ei dilyn :-

- Dechrau Rhagfyr 2007 – y Panel i gyfarfod a derbyn papur materion dan sylw a fydd yn cynnwys gwybodaeth gefndir a chynigion ar gyfer natur a chynnwys yr adolygiad;
- Rhagfyr/Ionawr 2007/8 – derbyn a chasglu tystiolaeth;
- Diwedd Ionawr 2008 – y Panel i gytuno ar argymhellion ar gyfer cyflogau
- Chwefror 2008 - y Panel i ganolbwyntio ar lwfansau (o bosibl i gynnwys tystiolaeth fwy manwl ar yr adnoddau y mae ar Aelodau eu hangen i'w cefnogi );
- Erbyn diwedd mis Mawrth 2008 – y Panel i gytuno ar argymhellion ar lwfansau.

**Materion Llywodraethu**

**Goblygiadau ariannol**

5. Mae amcangyfrifon wedi'u cynnwys yn y gyllideb atodol arfaethedig ar gyfer 2007/8 a chyllideb ddrafft 2008/9 i dalu costau'r hyn a argymhellwyd.

**Asesiad Risg**

6. Dylai bodolaeth panel cytbwys o bobl annibynnol roi mwy o hyder yng nghanlyniad yr adolygiad, gan ostwng niwed posibl i enw da'r Cynulliad.

**Cydymffurfio**

7. Gall y Comisiwn wneud penderfyniadau am yr holl gyflogau a lwfansau, ar wahân i lwfansau arweinwyr y pleidiau a fydd yn gorfod cael eu penderfynu gan y Cynulliad yn y cyfarfod llawn. Fe all fod angen ôl-ddyddio elfennau cyflog i fis Mai 2007 i adlewyrchu'r dyddiad y dechreuwyd ar y cyfrifoldebau ychwanegol gan yr Aelodau, a bydd angen i'r Comisiwn benderfynu ar y materion hyn o fewn y flwyddyn ariannol bresennol.

**Cyhoeddi**

8. Bydd manylion ynglŷn ag aelodau'r panel yn cael eu gwneud yn gyhoeddus yn fuan, ac i aros nes y bydd yr aelodaeth lawn wedi'i gadarnhau bydd holl aelodau'r panel yn cael gwybod y sefyllfa ddiweddaraf. Byddai'n anghwrtais i aelodau'r panel i gyhoeddi'r wybodaeth hon yn gynharach. Bydd y papur hwn yn addas i'w gyhoeddi ar amser a gytunir ar ôl cyfarfod y Comisiwn.

**MAES GWAITH DRAFFT AR GYFER ADOLYGIAD O GYFLOGAU A LWFANSAU AELODAU'R CYNULLIAD**

Cynnal adolygiad o Gyflogau, Pensiynau a Lwfansau sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad

Fel rhan o'i ystyriaeth, mae'r Panel Adolygu i feddwl am y cwestiynau canlynol:

- Beth yw'r tasgau a ddisgwylir gan Aelodau'r Cynulliad?
- Sut mae swyddogaeth Aelod Cynulliad yn debygol o newid o ganlyniad i weithredu Deddf Llywodraeth Cymru 2006?
- Sut mae swyddogaeth Aelod Cynulliad yn cymharu â swyddogaeth Aelod Seneddol, Aelod o Senedd yr Alban neu aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon neu swyddogaethau sector cyhoeddus perthnasol eraill?
- Beth yw lefelau priodol cyflogau y dylid eu talu i ddeiliaid swyddi:
    - Y Prif Weinidog;
    - Gweinidogion Cymru;
    - Y Cwnsler Cyffredinol
    - Dirprwy Weinidogion
    - Llywydd
    - Dirprwy Lywydd
    - Arweinyddion Gwrthbleidiau/ Grwpiau
    - Cadeiryddion Pwyllgorau (a pha Gadeiryddion a ddylai dderbyn cyflog ychwanegol)
    - Aelodau Comisiwn y Cynulliad
    - Prif Chwipiaid/Rheolwyr Busnes Pleidiau/ Grwpiau
    - Unrhyw ddeiliaid swyddi eraill a nodir gan y panel
- Beth yw'r tasgau a ddisgwylir iddynt gael eu cwblhau gan arweinyddion pleidiau ac a ddylai cymhwyster rhifiadol fodoli gyda golwg ar niferoedd yr Aelodau sy'n gymwys ar gyfer taliad, ac os felly, beth ddylai hwn fod?

- Pa adnoddau sydd eu hangen i alluogi’r tasgau hynny i gael eu gwneud yn effeithiol ac effeithlon ar ran yr etholwyr a’r Cynulliad?

- Pa adnoddau a ellid eu darparu orau yn ganolog, neu trwy ddulliau cefnogaeth ariannol eraill a pha adnoddau a ellid eu darparu trwy Lwfansau?

- Sut ddylai taliadau Staff Cymorth Aelodau’r Cynulliad gael eu trefnu?

- Pa gefnogaeth ddylai gael ei ddarparu i gyn Aelodau pan maent yn gadael?

Bydd y Panel Adolygu yn gwahodd cyflwyniadau tystiolaeth gan Aelodau’r Cynulliad a phersonau o’r fath, gan bleidiau a sefydliadau eraill fel y gwelir yn briodol, a bydd fel arall yn cynnal yr adolygiad fel y gwêl yn briodol.

Fe all y Panel Adolygu ystyried cymaryddion gyda pheirianweithiau cymorth eraill o fewn y Deyrnas Gyfunol a thu hwnt.

Bydd y Panel Adolygu yn paratoi adroddiad yn nodi ei ddarganfyddiadau a’i argymhellion, a’r rhesymau drostynt, ar gyfer ei gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad erbyn oddeutu diwedd Ionawr 2008.”